# Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth

Mid Wales Corporate Joint Committee

Man Cyfarfod
**Cyfarfod Gweminar Zoom**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Llun, 31 Gorffennaf 2023**

Amser y Cyfarfod
**11.15 am**

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**nicola.williams@powys.gov.uk**
julie.williams2@powys.gov.uk

Dyddiad Cyhoeddi
26-7-23

Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

## AGENDA

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO A CHYFLWYNIADAU** |

| | |
|---|---|
| **2.** | **ETHOL CADEIRYDD 2023/24** |

- Ethol Cadeirydd ar gyfer 2023/24

| | |
|---|---|
| **3.** | **ETHOL IS-GADEIRYDDD 2023/24** |

- Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2023/24

| | |
|---|---|
| **4.** | **PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU** |

- Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**Ymddiheuriadau a dderbyniwyd –**

- Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol
- Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol – Cyllid Craidd

| 5. | DATGANIDAU O DDIDDORDEB |
|---|---|

- I dderbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb yn ymwneud â materion sydd i'w hystyried ar yr agenda

| 6. | COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL |
|---|---|

- CJC & AGM – 4-7-22
- CJC – 19-1-23

(Tudalennau 1 - 14)

| 7. | ADRODDIAD AR NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD |
|---|---|

(Tudalennau 15 - 18)

| 8. | PENODI PRIF WEITHREDWR A DIRPRWY BRIF WEITHREDWR Y CBC |
|---|---|

- Penodi Prif Swyddog y CBC
- Penodi Dirprwy Brif Weithredwr

| 9. | ADRODDIAD GAN BRIF WEITHREDWR Y CBC - CYNLLUN CORFFORAETHOL AC AMCANION LLESIANT |
|---|---|

(Tudalennau 19 - 24)

| 10. | ADRODDIAD GAN BRIF WEITHREDWR Y CBC - ARGYMHELLION YR IS-BWYLLGORAU CYNLLUNIO DATBLYGU STRATEGOL, CYNLLUNIO TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL A LLESIANT ECONOMAIDD |
|---|---|

(Tudalennau 25 - 34)

| 11. | UNRHYW FATER ARALL |
|---|---|

<u>Cyfarfod nesaf</u> – Dydd Iau, 12 Hydref 2023 - 11 – 12-30

**COFNODION CYFARFOD FFURFIOL A CCB CYD-BWYLLGOR CORFFORAETHOL CANOLBARTH CYMRU A GYNHALIWYD DROS ZOOM AR DDYDD LLUN , 4YDD GORFFENNAF 2022**

**YN BRESENNOL**

Cyngor Sir Powys

Y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt, Arweinydd / Is-gadeirydd CBC Canolbarth Cymru

Dr Caroline Turner, Prif Weithredwr

Nigel Brinn, Cyfarwyddwr Gweithredol

Clive Pinney, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

Debby Jones, Arweinydd Proffesiynol - Cyfreithiol

Nicola Williams, Rheolwr Cyflenwi'r Rhaglen Strategol (CBC)

Julie Williams, Swyddog Cymorth y Rhaglen *(yn cymryd nodiadau) (CBC)*

Cyngor Sir Ceredigion

Y Cynghorydd Sir Bryan Davies, Arweinydd / Cadeirydd CBC Canolbarth Cymru

Eifion Evans, Prif Weithredwr

Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol

Elin Prysor, Swyddog Monitro a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu

Stephen Johnson, Swyddog Adran 151 a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol: Cyllid Craidd

Iona Davies/Rhydian Jones**,** Cyfieithwyr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe, Is-gadeirydd APCBB

Gareth Jones, Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle

| | |
|---|---|
| 1. | CROESO |

Ar gyfer dwy eitem gyntaf yr agenda, y Cynghorydd Bryan Davies oedd yn cadeirio'r CBC; llongyfarchodd y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt ar gael ei benodi fel Arweinydd newydd Cyngor Sir Powys; ac estynnwyd croeso i bawb i gyfarfod Ffurfiol a CCB CBC Canolbarth Cymru.

| 2. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 3. | PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD |
|---|---|

At ddiben 2022/23 mae gofyn i'r CBC benodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor. Enwebwyd y Cynghorydd Sir Bryan Davies fel Cadeirydd y CBC ar gyfer 2022/23 gan y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir Bryan Davies yn Gadeirydd y pwyllgor am y flwyddyn sydd i ddod.**

Enwebwyd y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt fel Is-gadeirydd y CBC ar gyfer 2022-23 gan y Cynghorydd Sir Bryan Davies. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir James Gibson-Watt yn Is-gadeirydd y pwyllgor am y flwyddyn sydd i ddod.**

Cynigiwyd a chytunwyd y byddai Cadeiryddion Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru'n aryneilio'n flynyddol rhwng Arweinyddion Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion.

| 4. | DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL |
|---|---|

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol mewn perthynas â materion i'w hystyried ar yr agenda.

| 5. | COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL A GYNHALIWYD AR 25AIN IONAWR 2022 |
|---|---|

**Cynigiodd y Cadeirydd fod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 25ain Ionawr 2022 yn cael eu llofnodi fel cofnod cywir, ond gan nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw, cytunodd y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe, a oedd yn bresennol yn y cyfarfod dan sylw, eu bod yn gofnod cywir.**
(Tudalennau 3 - 14)

| 6. | MABWYSIADU CYFANSODDIAD AR GYFER CYD-BWYLLGOR CORFFORAETHOL CANOLBARTH CYMRU |
|---|---|

Cyflwynodd y Swyddog Monitro'r adroddiad ar Gyfansoddiad CBC Canolbarth Cymru.
(Tudalennau 15 - 128)

**Cytunwyd ar yr argymhellion canlynol o'r Adroddiad:**

1. Mabwysiadu'r Cyfansoddiad ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru, fel y'i amlinellir yn Atodiad 1 yr adroddiad.
2. Dirprwyo pŵer i'r Swyddog Monitro i wneud mân newidiadau golygyddol (os oes angen) i'r Cyfansoddiad er mwyn ei gyhoeddi ar wefan y CBC.
3. Trefnu cyfieithu'r Cyfansoddiad a gymeradwyir o dan argymhelliad 1 i'r Gymraeg, a chyhoeddi'r cyfieithiad ar wefan y CBC cyn gynted ag sy'n ymarferol rhesymol.
4. Dylid oedi creu Is-bwyllgor Llesiant Economaidd - Datblygiad Economaidd Rhanbarthol (Bargen Twf Canolbarth Cymru) tan un o gyfarfodydd eraill y CBC i alluogi Trysorlys EM i lunio Gorchymyn i ganiatáu derbyn y Pedwar Cydbwyllgor Corfforaethol Cymreig i gynllun ad-dalu TAW Adran 33 ac er mwyn cadarnhau materion mewn perthynas â Threth Gorfforaeth.

**Yn ogystal, nodwyd y sylwadau canlynol:**

- Yn y cyfarfod cychwynnol ar 25ain Ionawr, sefydlwyd y CBC, a chymeradwywyd Rheolau Sefydlog y CBC, fyddai'n cael eu disodli gan y cyfansoddiad ffurfiol maes o law.
- Diben yr adroddiad hwn yw ystyried a chymeradwyo'r cyfansoddiad. Seilir y drafft at dempled cyfansoddiad newydd CLlLC.
- Fel y nodir yn yr adroddiad, bydd y cyfansoddiad yn destun monitro parhaus, a chaiff ei adolygu gan Swyddogion i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'w bwrpas. Mae 13 adran i'r cyfansoddiad drafft, sy'n cynnwys is-bwyllgorau, Swyddogion, Cynllun Dirprwyo, Mynediad at Wybodaeth, Cod Ymddygiad, Cyllideb a chaffael ariannol, materion cytundebol a chyfreithiol, ac ati.
- Nododd y Swyddog Monitro os caiff y cyfansoddiad ei gymeradwyo heddiw, bydd yn arwain at sefydlu is-bwyllgorau newydd ychwanegol, a amlinellir yn adran 5 y cyfansoddiad. Mae'r CBC eisoes wedi sefydlu tri is-bwyllgor fel a ganlyn:
    - Is-bwyllgor Llesiant Economaidd
    - Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Ranbarthol
    - Is-bwyllgor Cynllunio Datblygiad Strategol
- Os caiff ei gymeradwyo, bydd y cyfansoddiad hefyd yn golygu rhai is-bwyllgorau newydd, sef:
    - Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
    - Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu
    - Is-bwyllgor Safonau

Gofynnodd y Cynghorydd Sir Bryan Davies a fyddai'n bosibl diwygio'r cyfansoddiad, a chadarnhaodd y Swyddog Monitro y gellir adolygu'r cyfansoddiad ar unrhyw adeg, ac y gellir ei ddiwygio gyda chytundeb y Swyddog Monitro, a'i gymeradwyo wedyn mewn cyfarfod o'r CBC.

Gofynnodd y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe am eglurhad mewn perthynas ag aelod lleyg ar ran APCBB ac a oes unrhyw gyfyngiadau o ran Aelodau APCBB oherwydd mae ganddynt Aelodau Llywodraeth Leol, yn ogystal ag Aelodau Awdurdodau Lleol.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro, o safbwynt aelodaeth yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y dylai aelod APCBB fod yn un o gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, yn hytrach na Chynghorydd Sir. Gofynnodd y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe a fyddai modd cofnodi taw dim ond dau aelod gweithgar o LC sydd gan APCBB.

Diolchodd y Dr. Caroline Turner i'r Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe am dynnu sylw'r CBC at y ffaith hon.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt y dylid mabwysiadu'r cyfansoddiad, gan ystyried yr argymhellion uchod. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Cyfansoddiad, ynghyd â'r argymhellion uchod.**

| | |
|---|---|
| 7. | PENODI AELODAU CYFETHOLEDIG I IS-BWYLLGORAU CBC CANOLBARTH CYMRU |

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad ar Benodi Aelodau Cyfetholedig i Is-bwyllgorau CBC Canolbarth Cymru
(Tudalennau 129 - 134)

**ADRODDIAD AC ARGYMHELLION**

- Penodi fel Aelodau Cyfetholedig i Gyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru yr unigolion neu ddeiliaid y swyddi a bennir yn y Tabl yn Adran 4 yr adroddiad.
- Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dderbyn a phenodi enwebiadau gan Gynghorau Cyfansoddol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (lle bo'n briodol) ar gyfer aelodaeth o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, a'r Pwyllgor Safonau, fel Aelodau Cyfetholedig o Gyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru mor bell a bod y penodiadau hynny'n cael eu hadrodd i'r CBC yn ei gyfarfod nesaf.
- Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dderbyn (a phenodi fel Aelodau Cyfetholedig) newidiadau i aelodaeth o Is-bwyllgorau y mae'r Swyddog Monitro'n derbyn hysbysiad ysgrifenedig amdanynt mor bell a bod y penodiadau hynny'n cael eu hadodd i'r CBC yn ei gyfarfod nesaf.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt y dylid mabwysiadu'r Adroddiad. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu cynnwys yr adroddiad, a chymeradwyo'r argymhellion.**

| 8. | ADRODDIAD AR GYLLIDEB Y CBC 2021-22 |
|---|---|

Cyflwynwyd Adroddiad ar Gyllideb 2021-22 y CBC gan Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol: Cyllid Craidd.
(Tudalennau 135 - 138)

**ARGYMHELLION**

Nodi'r sefyllfa alldro ar gyfer 2021/22 ac y byddai templed Archwilio Cymru'n i gadarnhau'r sefyllfa'n cael ei gwblhau maes o law.

**PENDERFYNWYD**

**Cytunodd y Cadeirydd fod yr Adroddiad ar y Gyllideb yn gofnod cywir.**

| 9. | UNRHYW FATER ARALL |
|---|---|

TAW - Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y cytunwyd gyda Thrysorlys EM y byddai CBC yn cael eu cynnwys yn Adran 33. Bydd angen Gorchymyn i gyflawni hyn, ac mae Trysorlys EM wedi nodi y disgwylir cyflawni hyn yn yr Hydref, er does dim dyddiad pendant ar gael eto.

Bydd y Swyddog Monitro yn hysbysu aelodau am gynnydd ar y mater hwn.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r cyfarfod a chaewyd y cyfarfod.

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

**COFNODION CYFARFOD FFURFIOL**

**CYD-BWYLLGOR CORFFORAETHOL CANOLBARTH CYMRU**

**DDYDD IAU, 19 IONAWR 2023, 11am i 12.30pm**

**trwy WEMINAR ZOOM**

**YN BRESENNOL**

**Cyngor Sir Powys (CSP)**

Y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt, Arweinydd / Is-Gadeirydd CBC (CJC) Canolbarth Cymru

Dr Caroline Turner, Prif Weithredwr

Nigel Brinn, Cyfarwyddwr Gweithredol

Clive Pinney, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

Nicola Williams, Rheolwr Strategol Cyflawni'r Rhaglen (CBC/CJC)

Julie Williams, Swyddog Cefnogi'r Rhaglen *(yn cymryd nodiadau) (CBC/CJC)*

**Yn mynychu**

Y Cynghorydd Sir Jake Berriman ar gyfer Eitem 6 ar yr Agenda

**Cyngor Sir Ceredigion (CSC)**

Y Cynghorydd Sir Bryan Davies, Arweinydd / Cadeirydd CBC/CJC Canolbarth Cymru

Eifion Evans, Prif Weithredwr

Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol

Duncan Hall, Swyddog Adran 151 a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol: Cyllid Craidd

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (APCBB)**

Y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe, Is-Gadeirydd APCBB

Gareth Jones, Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle

| 1. | CROESO A CHYFLWYNIADAU |
|---|---|

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chafwyd cyflwyniadau byr o amgylch y bwrdd.

| 2. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar gyfer y Pwyllgor -

CSP - Debby Jones, Arweinydd Proffesiynol - Cyfreithiol

CSC - Elin Prysor, Swyddog Monitro a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu

| 3. | DATGAN BUDDIANNAU |
|---|---|

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant i'w datgan yn ymwneud â materion i'w hystyried ar yr agenda.

| 4. | COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL |
|---|---|

Cynigiodd y Cadeirydd fod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2022 yn cael eu llofnodi fel cofnod cywir ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd James Gibson-Watt.

| 5. | AELODAETH PWYLLGORAU'R CBC/CJC |
|---|---|

Roedd Aelodaeth yr Is-bwyllgorau yn cael ei chyflwyno i'r CBC/CJC i'w gymeradwyo.

Mae ychydig o leoedd gwag o dan yr Is-bwyllgorau Safonau, Trosolwg a Chraffu ar y Cyd a Llywodraethu ac Archwilio bellach wedi'u llenwi. Disgwylir am ddau enwebiad gan APCBB mewn perthynas â'r Is-bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio.

- **GWEITHREDU: Y Cynghorydd Gareth Ratcliffe i hysbysu'r Swyddog Monitro am yr enwebiadau ar gyfer yr Is-bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio.**

Cadarnhawyd y bydd penodiadau'n cael eu gwneud yn ystod cyfarfod nesaf APCBB a bydd y Swyddog Monitro yn cael ei hysbysu yn unol â hynny ac yn rhoi adroddiad yng nghyfarfod nesaf y CBC/CJC.

Dywedwyd y gallai'r CBC/CJC awdurdodi'r Swyddog Monitro i dderbyn yr enwebiadau hynny neu gellid eu penodi'n ffurfiol yn y cyfarfod nesaf.

- **ARGYMHELLWYD y dylid dirprwyo'r Swyddog Monitro i dderbyn enwebiadau gan APCBB ar gyfer yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.**

- **PENDERFYNWYD bod y Swyddog Monitro yn derbyn enwebiadau APCBB ar gyfer yr Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac yn rhoi adroddiad am hyn yng nghyfarfod nesaf y CBC/CJC.**

| 6. | ADRODDIAD I'R CBC/CJC GAN YR IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO DATBLYGU STRATEGOL |
|---|---|

Cyflwynwyd adroddiad ar ran yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol (CDS) gan y Cynghorydd Jake Berriman, Cadeirydd Is-bwyllgor y CDS.

Gofynnir am adborth gan aelodau'r CBC/CJC mewn perthynas â gohebiaeth (a ddosbarthwyd y bore yma) gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyllid ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol.

<u>Trosolwg byr</u>

Mae gan y CBC/CJC rwymedigaeth i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar draws Canolbarth Cymru i ddod â chynllun ynghyd trwy aelodau perthnasol y CBC/CJC gyda'r Awdurdodau Lleol cyfansoddol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Cyfarfu'r is-bwyllgor ar 14 Hydref a 2 Rhagfyr. Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl ac roedd llythyr wedi'i ysgrifennu at Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd. Roedd y llythyr yn amlinellu'r sefyllfa ac yn gofyn am ganiatâd i Bowys gael yr hawl i beidio â chadw at ei ddyddiad gorffen terfynol o ran ei gynllun datblygu lleol mabwysiedig presennol, er mwyn gallu neilltuo adnoddau ar gyfer cynhyrchu'r cynllun newydd.

Yn y cyfarfod ar 2 Rhagfyr, nododd ymateb gan y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn amharod i gael gwared ar y dyddiad cau terfynol ar gyfer Powys, gan nodi bod angen i Bowys barhau i baratoi'r cynllun datblygu lleol.

Bydd yr aelodau'n ymwybodol o gost y gwaith a chynhyrchwyd papur opsiynau gyda chwe opsiwn yn canolbwyntio ar opsiwn 2 sef sut i ddechrau'r Cynllun Datblygu Strategol ochr yn ochr â'r cynlluniau datblygu lleol.

Mae'r Awdurdodau Lleol mewn gwahanol sefyllfaoedd gyda Cheredigion a'r Parc Cenedlaethol wedi gohirio eu cynlluniau datblygu lleol am amrywiaeth o resymau.

Cytunwyd i ganolbwyntio ar opsiwn 2 gyda chafeat y byddai Cadeirydd y Cynllun Datblygu Strategol yn ysgrifennu eto at y Gweinidog i dynnu sylw at y ffaith bod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ynghlwm wrth dri Chynllun Datblygu Strategol yn ychwanegol at ei gynllun newydd ei hun, ac nad oes unrhyw adnoddau newydd ar

gael, a bod Powys eisoes wedi ymrwymo i gynllun newydd costus heb unrhyw ddewis heblaw parhau â'r hyn a ddarperir gan y Llywodraeth.

Roedd Cadeirydd y CBC/CJC yn dymuno nodi dau bwynt -

1. O ran y llythyr at Julie James, y Gweinidog, wrth gydnabod sefyllfa Cadeirydd Is-bwyllgor y Cynllun Datblygu Strategol, argymhellodd y Cadeirydd y byddai wedi bod yn ddefnyddiol gweld y llythyr cyn iddo gael ei anfon.

   Dymunai Cadeirydd y CBC/CJC gael gwybod am unrhyw ohebiaeth at y Gweinidogion yn y dyfodol oddi wrth y CBC/CJC neu unrhyw un o'r Is-bwyllgorau.

2. O ran y llythyr a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru y bore yma, a oes rhaid i aelodau'r CBC/CJC neu'r Cadeirydd ymateb i'r llythyr hwnnw?

Cydnabuwyd y byddai gan Gadeirydd y CBC/CJC gopi o unrhyw ohebiaeth fel hyn yn y dyfodol.

Dywedwyd bod y pwysau nawr ar fwrw ymlaen â'r *RTP* yn gyntaf cyn y Cynllun Datblygu Strategol. Mae canllawiau'r *RTP* ar fin ymddangos gyda llawlyfr y Cynllun Datblygu Strategol i gael ei gyhoeddi erbyn diwedd eleni.

Cydnabyddir bod y llawlyfr i'w gyhoeddi ar ddiwedd y flwyddyn a disgwylir i'r CBC/CJC lofnodi Cytundeb Cyflawni gyda Llywodraeth Cymru ynghylch yr amserlen ar gyfer cynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol erbyn diwedd y flwyddyn hefyd.

Mae Cadeirydd y Cynllun Datblygu Strategol yn pwysleisio bod angen sgwrs bellach dan arweiniad Cadeirydd y CBC/CJC a'r Prif Weithredwyr.

Nodwyd cadarnhad o'r sylwadau ynghylch yr amserlen a'r disgwyliadau.

Mynegwyd pryderon ynghylch y cais i ddarparu system heb ganllawiau sy'n hanfodol ar gyfer cydymffurfio â Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cadeirydd yn croesawu barn ynglŷn â chyfarfod â Llywodraeth Cymru a chytunodd fod angen trefnu cyfarfod ar fyrder i roi'r gorau i'r dyddiad cau terfynol, cael eglurder ynghylch y canllawiau, disgwyliadau Cynllun Datblygu Strategol a sut mae'n cydgysylltu â Chynlluniau Lleol.

Dywedodd Eifion Evans, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion ei bod yn holl bwysig rhoi cymorth i Bowys i ddileu'r dyddiad cau terfynol.

Mae Cadeirydd y CBC/CJC, yr Is-Gadeirydd a PCBB yn fodlon cefnogi hyn.

- **GWEITHREDU - Cadeirydd CBC/CJC Canolbarth Cymru i gysylltu â'r Gweinidog, Julie James i ofyn am gyfarfod i drafod mater Powys gyda'r adolygiad o'r CDLl.**

| 7. | DYCHWELEB FLYNYDDOL CBC/CJC 2021-22 |
|---|---|

Cyflwynwyd Dychweleb Flynyddol y CBC/CJC gan y Swyddog Adran 151. Gyda'r CBC/CJC yn bodoli yn 2021/22 ac na wariwyd unrhyw wariant ac na chafwyd unrhyw drafodion adroddwyd felly nad oedd dim i'w adrodd i Archwilio Cymru.

- **ARGYMHELLWYD cymeradwyo'r Ddychweleb Flynyddol yn amlinellu'r sefyllfa ar gyfer 2021/22 ac yn nodi sefyllfa lle nad oedd dim i'w adrodd.**

- **PENDERFYNWYD a chymeradwywyd Dychweleb Flynyddol CBC/CJC 2021-22 gan y Cynghorydd James Gibson-Watt ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Gareth Ratcliffe.**

| 8. | CYLLIDEB CBC/CJC 2023/24 |
|---|---|

Cyflwyno Adroddiad Cyllideb y CBC/CJC ar gyfer 2023/24 sy'n cynnwys cynllunio strategol ac elfen graidd fel y nodir yn Rheoliadau'r CBC/CJC.

Cyllideb arfaethedig o £175,000 sy'n gynnydd bychan ar y flwyddyn gyfredol sef £160,000.

<u>Pwyntiau allweddol perthnasol</u> -

Mae Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru yn endid cyfreithiol ar wahân ac felly'n gweithredu er ei fudd ei hun.

Mae materion heb eu datrys yn cynnwys TAW, materion Treth Gorfforaeth a Thrysorlys EM. Mae'r rhain yn agos at gael eu cwblhau ac mae rhai heriau gweithredol hefyd o ystyried bod y CBC/CJC yn endid cyfreithiol ar wahân.

Nodwyd trafodaethau'r Cynllun Datblygu Strategol yn gynharach a chynghorwyd nad dyma'r amser i dyfu Cyllideb y CBC/CJC hyd nes y bydd cyfeiriad pendant yn cael ei gadarnhau.

Cafwyd trafodaethau ynghylch y cworwm sydd ei angen ar gyfer y cyfarfod a mynegwyd pryderon ynghylch capasiti yn APCBB.

- **GWEITHREDU – Bydd Rheolwr Strategol Rhaglen y CBC/CJC yn gofyn i'r Swyddog Monitro/Rheoliadau ac yn codi gyda Llywodraeth Cymru a fyddai'n dderbyniol i'r ddau Awdurdod Lleol ac APCBB ddirprwyo unigolyn i fynychu'r cyfarfodydd, pe na bai un o'r tri aelod etholedig yn gallu ymuno â'r cyfarfod hwnnw, fel y gallai'r cyfarfod fynd yn ei flaen.**

**Crynodeb**

Cyllideb gyffredinol o £175,000, wedi'i rhannu'n elfen cynllunio strategol ac yn elfen o'r gyllideb gyffredinol graidd fel y nodir yn y rheoliadau ac oherwydd yr ansicrwydd o ran gofynion a chyfarwyddiadau ac ati a lefelau hyder o ran gwerth am arian pan ddaw at y Cynllun Datblygu Strategol a'r *RTP* a drafodwyd yn gynharach. Roedd cyllideb y llynedd yn £160,000 felly dim ond cynnydd bach sydd yna.

Nodwyd bod gallu o fewn y rheoliadau i adolygu'r gyllideb o fewn blwyddyn ariannol felly os bydd angen yn 2023/24 lle mae rhai o ofynion y dyfodol yn dod yn gliriach a'n bod yn fodlon ar y cyfeiriad yr ydym yn mynd iddo, gan gymryd i ystyriaeth yr heriau sylweddol o ran y cyllidebau ym mhob awdurdod, rydym yn gallu cynyddu'r gyllideb o fewn y flwyddyn os oes angen.

Byddai unrhyw danwariant gan y CBC/CJC ar ddiwedd y flwyddyn yn mynd i gyfrif Cronfa Wrth Gefn CBC/CJC Canolbarth Cymru a byddai angen ei rannu'n elfen cynllunio strategol ac yn elfen gyffredinol.

**Cronfa Bensiwn**

Mae angen enwebiadau ar gyfer gweinyddu pensiwn ar gyfer y CBC/CJC.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn dod o dan Gronfa Bensiwn Dyfed a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin ac ni fyddai'n briodol i'r gronfa bensiwn fod yn awdurdod gweinyddu ar gyfer CBC/CJC Canolbarth Cymru gan nad yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn rhan o'r CBC/CJC ei hun ac felly yn ddiofyn Cronfa Bensiwn Powys fyddai'r Corff Gweinyddu mwyaf amlwg ar gyfer y Gronfa Bensiwn.

Dylid ymateb i Lywodraeth Cymru ar y sail pe bai'r CBC/CJC yn dod yn gyflogwr ar ryw adeg yn y dyfodol yna Cronfa Bensiwn Powys fyddai'r Pensiwn dynodedig.

Mae Atodiad A yr adroddiad yn nodi manylion y £175,000, wedi'i rannu i ychydig dros £131,000 sef y gyllideb gyffredinol ac ychydig o dan £44,000 sef yr elfen cynllunio strategol.

Mae'n ariannu dwy swydd sef swydd Rheolwr Cyflawni'r Rhaglen Strategol a Swyddog Cefnogi Rhaglen y CBC/CJC a chostau cymorth eraill boed yn Wasanaethau Democrataidd, cymorth Cyfreithiol neu gymorth Ariannol.

- **ARGYMHELLIAD 10.1 Dim ond aelodau Ceredigion a Phowys sydd i gymeradwyo A - E oherwydd nid yw'n cynnwys cynllunio strategol.**
- **ARGYMHELLIAD 10.2 F - J Rhaid i hyn gael ei wneud gan holl aelodau'r CBC/CJC gan gynnwys y Parc Cenedlaethol oherwydd dyna'r elfen cynllunio strategol.**
- **ARGYMHELLIAD i gadarnhau'r penderfyniad ynghylch Cronfa Bensiwn Powys fel yr Awdurdod gweinyddu dynodedig.**

Holodd y Cynghorydd James Gibson-Watt ynghylch argymhellion 10.1 – pe na bai rhan dau yr adroddiad yn cael ei datrys yn foddhaol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bod trafodaethau pellach i'w cynnal gyda Swyddogion y Llywodraeth.

Holodd y Cynghorydd Gareth Ratcliffe am fformiwla cyllideb y Cynllun Strategol ar gyfer codi ymwybyddiaeth wrth symud ymlaen. Cadarnhaodd y Swyddog Adran 151 nad oedd cyfraniad APCBB yn cynnwys unrhyw gostau cynnal.

- **ARGYMHELLIAD 10.1 A- E - cynigiwyd gan y Cynghorydd James Gibson-Watt ac eiliwyd gan y Cynghorydd Bryan Davies fel Cadeirydd.**
- **ARGYMHELLIAD 10.2 F – J - cynigiwyd gan y Cynghorydd Bryan Davies ac eiliwyd gan y Cynghorydd James Gibson-Watt.**

- **ARGYMHELLIAD ynglŷn â dynodi Cronfa Bensiwn Powys fel awdurdod gweinyddu'r gronfa bensiwn ar gyfer y CBC/CJC - cynigiwyd hyn gan y Cynghorydd Bryan Davies ac eiliwyd gan y Cynghorydd Gareth Ratcliffe.**

| 9. | UNRHYW FATER ARALL |
| --- | --- |

Nid oedd unrhyw fater arall i'w adrodd i'r pwyllgor heddiw.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniadau a daeth y cyfarfod i ben.

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y CANOLBARTH

**Teitl yr Adroddiad:** **Diwygio'r Cyfansoddiad**

**Dyddiad y Cyfarfod: 31 Gorffennaf 2023**

| | |
|---|---|
| **Diben yr Adroddiad** | Diwygio adran 6 o'r Cyfansoddiad i ddarparu ar gyfer penodi Dirprwy Brif Weithredwr |
| **Awdur yr Adroddiad** | Clive Pinney, Swyddog Monitro |
| **Swyddog Cyllid** | Duncan Hall, Swyddog Adran |
| **Swyddog Cyfreithiol** | Clive Pinney, Swyddog Monitro |

## 1. Cefndir

1.1 Cymeradwywyd y Cyfansoddiad gan CCC ar 4 Gorffennaf 2022, ac mae adran 6 yn darparu ar gyfer penodi Prif Swyddog Gweithredol ("PSG") ond nid yw'n darparu ar gyfer penodi Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol.

1.2 Mae'n ofynnol yn ôl rheolau 6.2 a 2.3 y Cyfansoddiad fod PSG yn cael ei benodi yn y Cyfarfod Blynyddol bob blwyddyn gyda'r rolau rhwng Prif Weithredwyr Ceredigion a Phowys am yn ail ar sail flynyddol.

1.3 Cafodd Prif Weithredwr Cyngor Sir Powys ei benodi fel PSG ar gyfer CCC yn ei Gyfarfod Blynyddol ar 4 Gorffennaf 2022. Gwaetha'r modd, mae'r PSG wedi bod ar absenoldeb salwch hir dymor ers mis Chwefror 2023 ac yn absenoldeb Dirprwy PSG, gwnaeth y CCC benderfyniad ffurfiol i benodi PSG Ceredigion fel PSG y CCC ar 18 Mai 2023.

## 2. Cynnwys

2.1 Gan mai dim ond ei benodi fel PSG y CCC ar 18 Mai 2023 y cafodd Prif Weithredwr Ceredigion, caiff ei argymell fod y penodiad hwn yn parhau tan y Cyfarfod Blynyddol yn 2024.

2.2 Er mwyn osgoi'r posibilrwydd na fyddai'r PSG ar gael yn y dyfodol am ba bynnag reswm, caiff ei argymell fod y CCC hefyd yn penodi Dirprwy PSG a fyddai'n gallu dirprwyo pan fo'n ofynnol. Er mwyn cyflawni hyn, caiff ei argymell fod adran 6.2 y Cyfansoddiad yn cael ei diwygio fel a ganlyn:-

> **"DYLETSWYDD I BENODI PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL**
>
> **6.2.1** Bydd y CCC yn penodi Prif Swyddog Gweithredol a Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol am gyfryw gyfnod ag y mae'n ystyried i fod yn briodol o Brif Swyddogion Gweithredol Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion; ac yn unol â Rheol 2.3 y Cyfansoddiad, bydd y rolau yn cylchdroi'n flynyddol.
>
> **6.2.2** Bydd y Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol yn dirprwyo'n awtomatig ar ran y Prif Swyddog Gweithredol pryd bynnag y bydd y Prif Swyddog Gweithredol yn gofyn iddo wneud hynny neu pan fydd y Prif Swyddog Gweithredol yn absennol am unrhyw reswm."

## 3. Asesiad Effaith Integredig:

3.1 Nid yw'n ofynnol cael Asesiad Effaith Integredig.

## 4. Effaith ar y Gweithlu:

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ar y gweithlu.

## 5. Effaith Cyfreithiol:

5.1 Caiff yr argymhellion eu cefnogi o safbwynt cyfreithiol.

## 6. Effaith Ariannol

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol.

## 7. Ymgynghoriad:

6.1 Nid oes unrhyw ofyniad am ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

## 9. Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:

9.1 Cydymffurfio â Rheolau 6.2 a 2.3 y Cyfansoddiad a sicrhau parhad swyddogaeth y PSG yn y dyfodol.

## 10. Argymhellion

**10.1 Mynd ati i benodi Prif Weithredwr Ceredigion fel PSG y CCC tan y Cyfarfod Blynyddol nesaf ym mis Gorffennaf 2024.**

**10.2 Penodi Prif Weithredwr Powys fel Dirprwy Brif Weithredwr y CCC nes y Cyfarfod Blynyddol nesaf ym mis Gorffennaf 2024.**

**10.3 Diwygio adran 6.2 y Cyfansoddiad ar unwaith yn ôl yr hyn a osodwyd ym mharagraff 2.2 yr adroddiad.**

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

# MID WALES CORPORATE JOINT COMMITTEE

**Report Title:** **Corporate Plan - Report from the Chief Executive Officer of the Corporate Joint Committee**

**Date of Meeting:** **31st July 2023**

| | |
|---|---|
| **Purpose of Report** | To set out an update relating to the production of the Corporate Plan for the CJC |
| **Report Author** | Eifion Evans, CEO of the CJC |
| **Finance Officer** | Duncan Hall |
| **Legal Officer** | Clive Pinney |

## 1. Introduction:

The Mid Wales Corporate Joint Committee (CJC) is now established and as required by statutory guidance produced by Welsh Government, is expected to meet a range of requirements, in particular its public sector duties.

In that respect, Audit Wales have a resulting duty to review compliance with the Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015. A further update on their "light-touch" commentary is on the agenda for this meeting.

Aligned with similar developments nationally with the other 3 Corporate Joint Committees, the most appropriate method of ensuring the CJC has a mechanism to meet its public sector duties is the formation of a Corporate Plan.

This report provides an update on the work ongoing to develop the Mid Wales CJC's first ever Corporate Plan, including the draft Vision and Wellbeing Objectives, and forward work plan to proposed adoption.

## 2. Background

The Mid Wales Corporate Joint Committee (CJC) was formally established in January 2022, and the work of the committee has proceeded to formally adopt and establish its operating protocols, appoint roles, and evolve as legislation and subsequent guidance issued by Welsh Government. All meeting papers and decisions are uploaded onto the Powys Council website here.

The Mid Wales Corporate Joint Committee has constituted three sub-committees, as defined in legislation and subsequently laid down in regulations, in the following three areas:

- **Strategic Planning:** with the function of preparing a strategic development plan (and accordingly Part 6 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004.
- **Transport:** with the function of developing policies under section 108(1)(a) and (2A)(a) of Part 2 of the Transport Act 2000(1) is, in respect of the area of each constituent council, to be exercised by the Mid Wales CJC, and not by the constituent council.
- **Economic Wellbeing:** with the function as defined in the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 grants the Mid Wales CJC the same powers as the constituent Councils.

The CJC and its sub-committees are made up of Local Government Authorities which in the Mid Wales Region include Ceredigion County Council, Powys County Council, and the Bannau Brycheiniog National Park (BBNP) (the latter of which is involved in matters relating specifically to Strategic Planning).

Guidance has subsequently issued by Welsh Government, setting out detailed requirements/expectations in matters relation to Transport and Strategic Planning.

Further planning work has been undertaken in respect of the three sub-committee areas and will be set out in the remaining business of this meeting.

**3. Developing a Corporate Plan for the CJC**

In July 2023, relevant Political Members and Senior Officers from the three CJC partner organisations met to workshop some key principles around developing our approach in the three areas of work.

Throughout the establishment and evolution of the Mid Wales CJC, the political steer (from Welsh Government and the region) has been on the basis of:

- The role and remit of the CJC is for the CJC itself to decide (within the context of legislation, regulation and subsequent guidance).

Mid Wales has a strong track record of partnership working, and local government in the region has already established and successfully enabled a number of regional partnership and decision-making structures to support regional working. In that regard, it is important to acknowledge the particular challenges, opportunities and institutional capacity/capability in the region.

The establishment of the CJC offers significant opportunities and will present a significant change to the way we support our region.

However, the practical implications and consequential changes to our processes will take time to plan and implement. The CJC will need to set out how it intends to comply with its public sector duties – and there are time bound elements the CJC will need to deliver.

It should also be a clear principle that any structure we put in place should be effective as well as efficient with due regard to the characteristics of the Mid Wales region and its constituent Local Authorities.

As a result, we intend to develop the approach on an iterative basis. The Corporate Plan will need to reflect the high-level approach initially, be informed by the developing work of the sub-

committees, and then be regularly reviewed and leavened with detail over time.

## 3. Vision

The Vision for the work of the CJC will need to be developed and set out in the Corporate Plan.

Mid Wales and its Constituent Councils and the National Park have a number of existing plans and strategies that could be used as a basis for forming a cohesive and integrated Vision that spans Economic Wellbeing, Transport and Strategic Planning.

Fundamentally however, the work of the CJC has a significant sphere of influence on the accessibility and availability of opportunities for our residents and business in Mid Wales, both now and in the future.

## 4. Wellbeing Objectives

The Constituent Councils and the National Park have already set out how they will be contributing to the national wellbeing goals in their respective Corporate Strategies and Well-Being plans.

The CJC however, will also need to develop and set out Corporate Well-being Objectives in tandem with a Wellbeing Statement.

These will be developed and consulted upon as part of the Corporate Plan, however the following Well-being Objectives are proposed in draft:

**Draft Well-being Objective 1**

*'To improve the economic well-being of Mid Wales for future generations by narrowing the gap between key economic indicators such as wage rates and productivity relative to other parts of Wales and the UK and creating sustainable growth.'*

**Draft Well-being Objective 2**

*'To collaboratively and sustainably improve transport connectivity and infrastructure in Mid Wales to benefit the residents who live and work in the region, grow the economy and raise productivity.'*

**Draft Wellbeing Objective 3**

*'To provide consistent regional policies and guidance for Sustainable Development in Mid Wales that clearly set out our priorities for spatial growth.'*

## 5. Forward Work Plan

The work to develop a draft Corporate Plan is well underway. Whilst the CJC is overdue on the development and publication of its Well-being Objectives (due April 2023), it should be noted that significant work has been underway to understand the implications of the legislation, regulations and guidance – and determine the best approach for Mid Wales.

The following forward work plan for the development and adoption of the Corporate Plan is proposed:

| | |
|---|---|
| July 2023 | Finalisation of the draft corporate plan |
| August 2023 | Officer engagement and review. |
| September 2023 | Workshop |
| October 2023 | Consultation |
| November 2023 | Review/Amendments |
| December 2023 | Adoption & Publication |

## 6. Integrated Impact Assessment:

6.1 An IIA will be required to be developed in tandem with the Corporate Plan, and will be published for consultation at the same time.

## 7. Workforce Impacts:

7.1 None.

## 8. Legal Impacts:

8.1 None.

## 9. Risk Management Impacts:

9.1 None at this stage.

## 10. Consultation:

10.1 There is no requirement for public consultation in respect of this report. However, the draft Corporate Plan will be subject to consultation.

## 11. Reasons for Proposed Decision:

11.1 To ensure the financial budget is set for the MWCJC in line with relevant legislative requirements applicable to CJCs.

## 12. Recommendations

**12.1 Members to note the progress and comment on the proposed approach to develop the Corporate Plan.**

**12.2 Members to provide comment on the draft Wellbeing Objectives.**

**12.3 Members to note the timescale for development, consultation and adoption of the Corporate Plan.**

# CYD-BWYLLGOR CORFFORAETHOL CANOLBARTH CYMRU

**Teitl yr Adroddiad:** **Adroddiad Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforaethol**

**Dyddiad y Cyfarfod: 31ain Gorffennaf 2023**

| | |
|---|---|
| **Diben yr Adroddiad** | Cymeradwyo'r argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad mewn perthynas â chynnydd o ran gwaith Is-bwyllgorau Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru. |
| **Awdur yr Adroddiad** | Eifion Evans |
| **Swyddog Cyllid** | Duncan Hall |
| **Swyddog Cyfreithiol** | Clive Pinney |

**1. Cyflwyniad**

Yn sgil gweithdy a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2023 gydag Aelodau a Swyddogion CBC Canolbarth Cymru, cytunwyd y byddai Prif Weithredwr y CBC yn cyflwyno adroddiad gydag argymhellion i'w cymeradwyo mewn perthynas â chyflawni gwaith is-bwyllgorau canlynol y CBC -

- Cynllunio Datblygu Strategol
- Cynllunio Trafnidiaeth Ranbarthol
- Llesiant Economaidd

**2. Cefndir**

Sefydlwyd CBC Canolbarth Cymru ym mis Ebrill 2021 trwy offerynnau statudol a wnaethpwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021.

Yng nghyfarfod y CBC a gynhaliwyd ar 25ain Ionawr 2022 cytunwyd, er mwyn gallugoi'r CBC i gyflawni ei Ddyletswyddau Statudol, y dylid sefydlu tri is-bwyllgor:

- Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Ranbarthol
- Is-bwyllgor Llesiant Economaidd (Bargen Dwf Canolbarth Cymru)
- Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol

Yn ogystal, bydd Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, Pwyllgor Safonau, a Phwyllgor Craffu a Throsolwg yn cael eu sefydlu.

Yng nghyfarfod y CBC a gynhaliwyd ar 4ydd Gorffennaf 2022, cymeradwywyd penodi Aelodau Cyfethol i Is-bwyllgorau CBC Canolbarth Cymru, ynghyd â Chylch Gorchwyl pob un o'r Is-bwyllgorau, fel y nodir yn adran 5 y Cyfansoddiad.

Hyd yn hyn, yr unig bwyllgor sydd wedi cwrdd yw'r Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol, sy'n cynnwys Aelodau a Swyddogion Cynghorau Sir Ceredigion a Phowys ac Awdurdod Parc Bannau Brycheiniog.

**3. Cynllunio Datblygu Strategol**

Mae Rhan 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn berthnasol i CBC Canolbarth Cymru, ac mae'n ofynnol i'r CBC arfer ei swyddogaeth o ran llunio Cynllun Datblygu Strategol (CDS). Cynllun 20 mlynedd yw CDS sy'n cymryd rhyw 5-6 mlynedd i'w lunio a'i fabwysiadu. Bydd CDS yn olrhain blaenoriaethau strategol y rhanbarth ac yn creu fframwaith cynllunio er mwyn hwyluso twf, gan ganolbwyntio ar Newid Hinsawdd, Seilwaith Gwyrdd, Llifogydd, Tai, Cyflogaeth, Trafnidiaeth, ac ystod o faterion a themâu allweddol eraill. Mae canllawiau o ran llunio CDS ar gael ar ffurf llawlyfr CDS. Mae'r llawlyfr yn olrhain gweithdrefn debyg i'r broses o lunio CDLl, gyda nifer o gamau allweddol a seilir ar ymgynghori â'r cyhoedd.

Gan ystyried camau amrywiol o ran llunio'r cynllun rhanbarthol ar hyn o bryd, cynhaliwyd 3 chyfarfod o is-grŵp y CDS, pan gyflwynwyd opsiynau a phapurau o ran cyllideb, a chytunwyd ar yr awdurdod arweiniol (Ceredigion). Mae argymhellion yr is-grŵp yn adlewyrchu'r angen i gyflawni gwaith paratoadol sylweddol, ac adnoddau dynodedig i ganiatáu dechrau ar hyn.

Mae'n bwysig nodi nad oes gan CDLl Ceredigion a CDLl Bannau Brycheiniog ddyddiad terfynol ar hyn o bryd, oherwydd iddynt gael eu mabwysiadu cyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Fodd bynnag, mae gan CDLl Powys ddyddiad terfynol, a daw'r cynllun i ben yn 2026. Mae cyngor croes yn cael ei gynnig ar lefel swyddogion a gweinidogion lleol a chenedlaethol o ran goblygiadau dyddiadau terfynol. Mae barn gyfreithiol rhanbarth CDS De-orllewin Cymru'n awgrymu y byddai arwyddocâd perthnasol cynlluniau'n parhau tu hwnt i'w dyddiad terfyn mor bell a bod y cynllun dal yn berthnasol ac yn cydymffurfio â pholisi cenedlaethol ehangach.

Gall CDLl a CDS olygu bod angen llawer o adnoddau ac maent yn gostus i'w cynhyrchu, felly, gan ystyried maint ein rhanbarth ac ymrwymiadau rhai partneriaid h.y. mae APCBB yn rhan ehangach o 3 rhanbarth CDS. Mae'n bwysig felly ystyried yr hyn y gellir ei wireddu'n realistig a beth fyddai'n cynnig y budd mwyaf i'r rhanbarth. Cytunwyd taw CDS yw'r dull o weithio mwyaf synhwyrol, gyda chyfle i sicrhau y gellir gwireddu cynllun rhanbarthol 'prawf gwledig' sy'n diwallu anghenion a gofynion y fro ganolog, unigryw hon yng Nghymru.

Er mwyn gwneud cynnydd gyda CDS, argymhellir y dylai'r CBC geisio cadarnhad ar lefel gweinidogion o ran goblgyiadau Powys yn symud i wneud cynnydd gyda CDS yn hytrach na'u cynllun newydd. Ar hyn o bryd mae Powys yn paratoi eu CDLl, ac maent rhyw 6 mis ar ei hôl hi o ran yr amserlen, gydag anawsterau recriwtio rhanbarthol a chyfyngiadau cyllidebol angenrheidiol yn golygu nad yw'n ymarferol gwneud cynnydd ar y ddau gynllun ar yr un pryd.

Byddai gwaith cyn-paratoadol ar y CDS yn canolbwyntio ar lunio cyllideb, alinio amserlenni ar draws y 3 ardal, gan gynnwys y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) a'r Cynllun Llesiant Economaidd, adnabod prif flaenoriaethau, sefydlu hierarchaeth aneddiadau rhanbarthol; mapio sgiliau rhanbarthol ac adnabod swyddogion arweiniol awdurdodau eraill sy'n gallu cynorthwyo, yn ogystal â mynd i'r afael ag anghenion TG ar draws y rhanbarth, gyda'r bwriad o lunio a chyflwyno cytundeb cyflenwi i'w gymeradwyo gan weinidogion yn 2024.

**4. Cynllunio Trafnidiaeth Ranbarthol**

Mae Adran 108(1)(a) a (2A)(a) Rhan 2 Deddf Trafnidiaeth 2004(4) yn golygu bod gofyn i CBC ddatblygu polisïau trafnidiaeth a llunio cynllun trafnidiaeth rhanbarthol ar gyfer ei ardal; mae cynghorau Ceredigion a Phowys yn rhan o ardal y cynllun.

Mae'n rhaid i'r CBC **ddatblygu polisïau i** hyrwyddo ac annog trafnidiaeth ddiogel, integredig, effeithlon ac economaidd i, o ac o fewn ei ardal, fydd yn gweithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Unwaith y caiff y cynllun a'i bolisïau eu cytuno, bydd gofyn i bob awdurdod priffyrdd (Cynghorau Ceredigion a Phowys) lunio cynllun cyflenwi ar gyfer y polisïau a luniwyd.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau Trafnidiaeth Rhanbarthol ar 13eg Gorffennaf 2023, sydd braidd yn gynghorol ei natur o ran olrhain yr hyn a ddisgwylir i'r CBC ei wneud, ac nid ydynt am gynnwys, sydd yn syndod i raddau, gan fod y cynllun yn eiddo i'r CBC a bod angen iddo olrhain cyd-destun rhanbarthol y rhwydwaith trafnidiaeth strategol.

1. Rydyn ni AM i'r CTRh ganolbwyntio'n glir ar newid moddau teithio.
2. Dydyn ni DDIM am weld dogfennau hirfaith, wedi'u hysgrifennu gan ymgynghorwyr yn unig.
3. Rydyn ni AM weld tystiolaeth o ffrwyth meddwl clir sy'n canolbwyntio ar y canlyniad.
4. Rydyn ni AM i chi ddefnyddio dulliau a thechnolegau arloesol ar gyfer datblygu'ch CTRh ac i'w roi ar waith.
5. Rydyn ni AM i chi ddefnyddio astudiaethau a chynlluniau sy'n bod eisoes, gan gynnwys gwaith Uned Dadansoddi Trafnidiaeth Geo-ofodol

a Strategol Trafnidiaeth Cymru (TrC).

6. Rydyn ni AM i chi weithio gyda'ch gilydd fel CBC i baratoi CTRh.

7. Rydyn ni AM i chi ddilyn y pum ffordd o weithio a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

8. Rydyn ni AM i chi ddefnyddio ffyrdd creadigol i ennyn pobl i newid eu moddau teithio.

9. Rydyn ni AM i chi gynnwys datgymhellion i ddefnyddio'r car yn ogystal â chymhellion i ddefnyddio moddau teithio cynaliadwy.

**10.** Rydyn ni am weld y Cynlluniau Datblygu Strategol a'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael eu datblygu gyda'i gilydd.

Mae'r canllawiau'n olrhain amserlen arfaethedig mewn perthynas â'r prif Gerrig Milltir o ran paratoi, ymgysylltu a chymeradwyo'r cynllun.

- 31 Hydref 2023 – CBCau yn cyflwyno Cynllun Gweithredu i Lywodraeth Cymru.
- 29 Chwefror 2024 – CBCau yn cyflwyno Achos dros Newid y CTRh gan gynnwys amcanion SMART i Lywodraeth Cymru
- 29 Mai 2024 – CBCau yn cyflwyno drafft cyntaf y CTRh, IWBA a'r CCTRh i Lywodraeth Cymru CYN yr ymgynghoriad cyhoeddus.
- 31 Hydref 2024 – CBCau yn cyflwyno drafft terfynol yr CTRh, IWBA a'r CCTRh i Lywodraeth Cymru
- 29 Mawrth 2025 – CBCau yn cyflwyno'r CTRh, IWBA a'r CCTRh terfynol i Lywodraeth Cymru
- 30 Mehefin 2025 – Penderfyniad Llywodraeth Cymru ynghylch cymeradwyo'r CTRhau

Mae'r amserlen hon yn hynod heriol ac felly nes i'r CBC gael cyfle i ystyried yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r holl dasgau er mwyn gwireddu'r cynllun, ni fyddai'n ddoeth cytuno â'r amserlen arfaethedig ar hyn o bryd. Er i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau'r CTRh ynghyd â dogfennau eraill sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, nid yw wedi cyhoeddi eto'r canllawiau WelTAG newydd, sy'n rhan o'r broses angenrheidiol y disgwylir i'r CBC ei dilyn er mwyn cadarnhau ein "hachos dros newid", un o gamau cyntaf y cynllun. Yn ogystal ni chyhoeddwyd y "Llwybr Gwledig"; na'r Cynllun Cludo Nwyddau a Logisteg, sef dogfennau polisi atodol eto, ac mae angen y dogfennau hyn er mwyn deall a sicrhau fod yr achos dros newid yn eu hystyried.

Proses y CTRh y mae angen eu cyflawni: -

| |
|---|
| Achos dros Newid<br>Cynllun Gweithredu |
| Adolygu'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol Rhanbarthol presennol |

| |
|---|
| Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid |
| Adroddiad WelTAG Byr |
| Cynllun Monitro a Gwerthuso |
| Cynnal dau adolygiad Gateway o broses y cynllun yn erbyn y cynllun gweithredu |
| Prif Ddogfen y CTRh – ymgynghoriad ffurfiol |
| Adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig a Chwmpasu |
| Cyflwyno'r CTRh terfynol |

Nododd datganiad y Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd a gyhoeddwyd ar 13eg Gorffennaf y caiff "*CTRh a Chynlluniau Datblygu Strategol newydd eu cyd-ddatblygu gan CBC i sicrhau agwedd fwy cydgysylltiedig tuag at ddefnydd o dir a chynllunio trafnidiaeth*". Er bod angen ystyried y ddau gynllun, bydd amseru eu gwireddu'n golygu fod "cyd-ddatblygu" yn unol â'r amserlen a gyhoeddwyd yn afrealistig, oherwydd bydd y ddwy broses yn dilyn amserlenni gwahanol.

Mae'r datganiad hefyd yn nodi, "*Hefyd rwyf wedi penodi'r Cynghorwyr Hunt a Medi i arwain 'Grŵp Datblygu Ymgynghorol a Seilir ar Leoedd'. Eu tasg fydd archwilio ffyrdd o weithio rhwng trafnidiaeth, cynllunio defnydd o dir a datblygu, a chynnig argymhellion o ran sut gall y meysydd hyn integreiddio'n well er mwyn gwireddu amcanion cyffredin".* Nid yw'r canllawiau CTRh yn adnabod sut bydd y grŵp ymgynghorol hwn yn dylanwadu ar lunio ein cynllun, a buaswn yn awgrymu bod risg pellach ynghlwm wrth hyn o ran gwireddu amserlen diffiniedig ar hyn o bryd, heb wybodaeth bellach. Er hynny, hwyrach y bydd cychwyn cynllunio gweithredu'r cynllun yn datrys y mater hwn.

Byddai gwaith y CTRh yn elwa o'r CBC yn adnabod ei amcanion rhanbarthol, er mwyn inni adnabod y cyfleoedd i wireddu gwell canlyniadau, cyn i'r gwaith ar lunio'r CTRh ddechrau.

Er nad yw cyflenwi cynllun trafnidiaeth rhanbarthol ar y cyd yn beth newydd ar gyfer y ddau awdurdod lleol, yr hyn sydd wedi newid yw ffiniau'r cynllun newydd. Bellach, ni fydd yn cynnwys ardal ddeheuol cyngor Gwynedd, ac felly bydd gofyn i'r tri awdurdod lleol sydd ar hyn o bryd yn rhan o fforwm Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) ystyried a oes angen y corff hwn o hyd, ac a fydd angen agwedd wahanol o safbwynt y dyfodol wrth i'r CBC ddatblygu'r CTRh newydd, ac a fydd parhau i redeg TraCC yn ddybygliad.

Er na cynhaliwyd gwerthusiad ffurfiol o'r costau sy'n gysylltiedig â chanllawiau'r CTRh ar hyn o bryd, amcangyfrifir y bydd angen adnoddau o ryw £200mil.

**5. Llesiant Economaidd**

Fel y pennir mewn deddfwriaeth, ac mewn rheoliadau yn sgil hynny, dyfarnwyd swyddogaeth llesiant economaidd i CBC Canolbarth Cymru, yn unol â diffiniad Adran 76 Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Diffinnir hyn fel a ganlyn "…gall wneud unrhyw beth sydd yn ei dyb yn debygol o hyrwyddo neu wella llesiant economaidd ei ardal."

Gellir ymarfer swyddogaeth llesiant economaidd mewn perthynas ag neu er budd:

(a) ardal gyfan neu unrhyw ran o ardal y cyd-bwyllgor corfforaethol

(b) holl drigolion neu unrhyw drigolion neu unigolion sy'n bresennol yn ei ardal.

Mae swyddogaeth llesiant economaidd yn cynnwys y grym i wneud unrhyw beth mewn perthynas ag, neu er budd, unrhyw unigolyn neu ardal a leolir tu allan i ardal y cyd-bwyllgor corfforaethol, gan gynnwys ardaloedd tu allan i Gymru, os bydd y cyd-bwyllgor corfforaethol yn ystyried y bydd yn debygol o hyrwyddo neu wella llesiant economaidd ei ardal.

Mae'r uchod yn amodol ar unrhyw waharddiad, amod neu gyfyngiad arall o ran ymarfer swyddogaeth llesiant economaidd y'i darperir ar ei gyfer mewn rheoliadau'r cyd-bwyllgor neu reoliadau adran 83.

Ni chyhoeddwyd canllawiau ffurfiol gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r swyddogaeth Llesiant Economaidd (fel sydd ar gael ar gyfer CDS a CTRh). Diffinnir y swyddogaeth a ddyfarnwyd fel "pŵer cydredol," sef mae gan y CBC a'r Cynghorau Cyfansoddol (Ceredigion a Phowys) yr un hawliau i ymarfer y pwerau yn eu hardaloedd unigol, ac ni effeithir ar yr hawliau hynny oherwydd i'r naill barti neu'r llall eu hymarfer.

Felly cyfrifoldeb y Cynghorau Cyfansoddol / CBC Canolbarth Cymru yw penderfynu pa fath o benderfyniadau, swyddogaethau a/neu weithgareddau fydd yn parhau ar lefel leol, a pha agweddau fyddai'n cael eu cyflawni orau ar lefel ranbarthol trwy'r CBC.

Ar lefel genedlaethol, mae gwaith ar y gweill eisoes gan Lywodraeth Cymru i adolygu ei strategaeth economaidd, a'r fframwaith economaidd rhanbarthol, ac mae hefyd wedi cyfathrebu â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) i lunio cynllun gweithredu ar gyfer rhanbarthau mewn perthynas â datblygiad economaidd. Cynhaliwyd gweithdy cychwynol gydag Aelodau'n gynharach ym mis Gorffennaf 2023 – pan gafodd cwmpas ac aeddfedrwydd CBC Canolbarth Cymru ei gyfleu'n glir.

Ar lefel ranbarthol, mae gennym eisoes nifer o drefniadau partneriaeth mewn perthynas â datblygu strategaeth, darparu cyngor a darparu cyllid:

- **Strategaeth ac Ymgysylltiad:** Partneriaeth TCC, Y Grŵp Ymgynghorol Economaidd (sector preifat), Y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Y Bwrdd Ymgynghorol ar Ynni.
- **Cyflawni:** Bargen Dwf Canolbarth Cymru – sydd â Chyd-bwyllgor cyfansoddedig cyfreithiol (Bwrdd TCC).
- **Trefniadau hybrid – sy'n cwmpasu ardaloedd rhanbarthol a lleol:** Cyllid Adfywio Llywodraeth Cymru, Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, Cronfeydd yr UE yn gynt.

Mae'r prif egwyddorion sy'n sail ar gyfer y rhanbarth mewn perthynas â'r CBC yn cael eu llunio fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol. Fodd bynnag, mewn perthynas â swyddogaeth llesiant economaidd – mae angen cyflawni gwaith mapio a chynllunio sylweddol er mwyn adnabod cwmpas a chylch gwaith y CBC yn y cyswllt hwn.

Er hynny, gallwn fabwysiadu rôl strategol ar gyfer y CBC yn y cyswllt hwn yn y cychwyn cyntaf. Mae gan Ganolbarth Cymru ddogfen weledigaeth strategol eisoes (Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru) a luniwyd gyda rhanddeiliaid a Phartneriaeth traws-sector TCC. Roedd yn ddogfen allweddol oedd yn cynnig y cyd-destun strategol er mwyn datblygu Bargen Dwf Canolbarth Cymru a'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Mae Gweledigaeth TCC yn cael ei hadolygu a'i diweddaru yn unol â'r cyllid presennol, a'r meysydd ymyrraeth eraill y byddem yn hoffi eu hystyried efallai wrth ddarparu cyfeiriad strategol arnynt ar lefel ranbarthol.

Cynigir y bydd y trefniadau cyfredol yn parhau i ddiweddaru Gweledigaeth TCC, ac y cynhelir ymgynghoriad arni ac y caiff ei mireinio gan Bartneriaeth TCC; ac y caiff ei hystyried yn ffurfiol wedyn gan y CBC i'w mabwysiadu fel y weledigaeth strategol ar gyfer llesiant economaidd.

Wedyn cynigir y bydd yr is-bwyllgor llesiant economaidd yn dechrau cwrdd yn anffurfiol ar ffurf gysgodol[1] i ddechrau ystyried yr opsiynau er mwyn datblygu a chytuno cwmpas a chylch gwaith yr is-bwyllgor.

Mae'r prif dasgau y byddai angen i'r gweithgor hwn ei ddatrys fel a ganlyn:

- **Adnoddau:** Adnabod gofynion o ran adnoddau a swyddog arweiniol
- **Strategaeth:** darparu mewnbwn a siapio'r gwaith parhaus i ddiweddaru Gweledigaeth Tyfu Canolbarth Cymru.
- **Cynllun Gweithredu:** Gweithio gyda'r OECD er mwyn deall ac alinio'r gwaith ar y cynllun gweithredu i ddiwallu anghenion Llywodraeth Cymru ac anghenion CBC Canolbarth Cymru.

- **Bargen Dwf:** Ymchwilio ymhellach i a deall goblygiadau ac agweddau ymarferol ar y bwriad i "godi a symud" Bargen Dwf Canolbarth Cymru i'r CBC.

**6. Asesiad Effaith Integredig:**

6.1 Nid oes gofyn cael Asesiad Effaith Integredig ar gyfer yr adroddiad hwn, oherwydd seilir sefydlu'r CBC ar ddeddfwriaeth, a diben yr adroddiad hwn yw cadarnhau'r trefniadau ariannol yn unol â deddfwriaeth.

**7. Effaith ar y Gweithlu:**

7.1 Ar hyn o bryd, bydd unrhyw waith ar ran CBCCC yn cael ei gyflawni gan yr awdurdodau cyfansoddol, a chaiff y costau eu codi ar CBCCC gan ystyried unrhyw faterion treth cysylltiedig.

**8. Effaith Gyfreithiol:**

8.1 Mae Rhan 5 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer sefydlu, trwy reoliadau, CBC a bydd gofyn cydymffurfio â hyn a rhwymedigaethau cyfreithiol eraill wrth sefydlu CBC. Yn benodol, daeth Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru i rym ar 1af Ebrill 2021 ac maent yn olrhain y dylid sefydlu'r CBC, a'r amserlenni o ran cyflawni swyddogaethau penodol.

**9. Effaith o ran Rheoli Risg:**

9.1 Ar hyn o bryd, ni adnabuwyd unrhyw risgiau o ran argymhellion yr adroddiad hwn.

**10. Ymgynghori:**

10.1 Nid oes gofyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

**11. Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

11.1 Sicrhau y cytunir ar y ffordd ymlaen er mwyn dechrau cyflawni Swyddogaethau Statudol CBC Canolbarth Cymru.

**12. Argymhellion**

**12.1 Argymhellir fod Aelodau CBCCC Cynghorau Ceredigion a Phowys yn cymeradwyo'r canlynol mewn perthynas â symud ymlaen gyda gwaith tri is-bwyllgor y CBC.**

**12.2 Cynllunio Datblygu Strategol (CDS)**

1. **Y CBC i geisio eglurhad o ran sefyllfa gyfreithiol yr ardal o ran symud i waith y CDW, gan adael Powys mewn cyfnod 'dim cynllun'.**
2. **Y CBC i gefnogi'r gofynion o ran adnoddau ar gyfer gwaith rhag-baratoadol mewn perthynas â sefydlu'r CDS a datblygu'r Cytundeb Cyflenwi.**

**12.3 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh)**

1. **Dechrau ar waith Is-bwyllgor Trafnidiaeth y CBC a gofyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno Canllawiau Trafnidiaeth Rhanbarthol.**
2. **Cyflawni gwaith i asesu'r costau er mwyn cyflawni'r CTRh.**
3. **Gofyn i Swyddog Arweiniol Trafnidiaeth TCC arwain ar y gwaith.**
4. **Cadarnhau nad yw ardal ddeheuol Gwynedd yn rhan o'r cynllun trafnidiaeth rhanbarthol newydd ac y dylai awdurdodau lleol Ceredigion a Phowys adolygu'r rôl ac a oes angen cadw'r grŵp trafnidiaeth presennol, TraCC.**

**12.4 Llesiant Economaidd**

- **Bod CBC Canolbarth Cymru'n penderfynu derbyn y Weledigaeth ddiweddaraf ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru gan Bartneriaeth TCC yn yr Hydref, ac ystyried ei mabwysiadu fel y strategaeth ar gyfer y maes gwaith hwn.**
- **Bod CBC Canolbarth Cymru'n darparu'r mandad i'r is-bwyllgor ddechrau cwrdd yn anffurfiol i ddechrau cwmpasu a llunio manylion yr opsiynau a amlinellir yn yr adroddiad, er mwyn adrodd yn ôl mewn cynllun erbyn cyfarfod nesaf y CBC.**

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol